COSVR249

Gosod a datgysylltu sgaffaldiau cantilifer

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi, gosod a datgysylltu sgaffaldiau cantilifer, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, a dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar

Mae’r safon hon ar gyfer pobl sy’n gweithio ym meysydd galwedigaethol Sgaffaldiau a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a phenodol a chanllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Meini Prawf Perfformiad 1

Dehongli gwybodaeth

K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o **wybodaeth** sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham mae'n bwysig eu dilyn

*
*Meini Prawf Perfformiad 2**

Arferion gwaith diogel

K4 **deddfwriaeth** gyfredol a **chanllawiau swyddogol** a sut cânt eu cymhwyso

K5 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

K6 beth yw **gweithdrefnau diogelwch** y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K7 y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K8 pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

K9 sut i gydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r **ddeddfwriaeth** gyfredol a **chanllawiau swyddogol**

Meini Prawf Perfformiad 3

Dewis adnoddau

K10 beth yw nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cyfyngiadau a diffygion yr **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K11 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut i adrodd am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â nhw

K12 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut i'w defnyddio

K13 pa **beryglon** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut i ddelio â'r rhain

*
*Meini Prawf Perfformiad 4**

Lleihau'r risg o ddifrod

K14 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrpas diogelu

K15 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut i wneud hyn

Meini Prawf Perfformiad 5

Bodloni gofynion y contract

K16 sut i ymgymryd â **dulliau gweithio** i fodloni'r gofynion a sut i adrodd am **broblemau**

K17 sut i **gynnal a chadw** offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 6

Amser a neilltuwyd

K18 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Meini Prawf Perfformiad 1

1 dehongli cynlluniau, lluniadau a brasluniau, datganiadau dull, asesiadau risg, gofynion, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

**

Meini Prawf Perfformiad 2**

2 osgoi risg drwy ddilyn yr wybodaeth a roddir am y canlynol:

2.1 dulliau gweithio

2.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel

2.3 defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel

2.4 defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel

2.5 risgiau penodol i iechyd

*
*Meini Prawf Perfformiad 3**

3 dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun:

3.1 deunyddiau, cydrannau, gosodiadau, angorau a chlymau

3.2 offer a chyfarpar

3.3 cyfarpar mynediad

*
*Meini Prawf Perfformiad 4**

4 diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod

5 cynnal man gwaith clir a thaclus

6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

*
*Meini Prawf Perfformiad 5**

7 dangos sgiliau mesur, gosod allan, cydosod, trwsio, gosod, sicrhau a symud

8 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, cyfarpar ategol a chyfarpar mynediad

9 gosod a datgysylltu o leiaf un o'r sgaffaldiau cantilifer canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, gan ddefnyddio tiwbiau a ffitiadau neu sgaffald system:

9.1 cantilifer cyplau allan

9.2 cantilifer ffan

**

Meini Prawf Perfformiad 6**

10 cwblhau'ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwaredu gwastraff

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

*
*Argyfyngau**

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol pan mae'n ymwneud â'r canlynol:

2.1 tanau, gollyngiadau ac anafiadau

2.2 argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

*
*Peryglon**

3 y rhai hynny a nodir drwy asesiad risg, fel rhan o ddull gweithio, yng ngwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr ac mewn rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

*
*Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

4 y cyfarpar a nodir gan yr egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith ac amgylchedd gwaith cyffredinol:

4.1 mesurau diogelu ar y cyd

4.2 system awyru a gwacáu leol

4.3 cyfarpar diogelu personol
4.4 cyfarpar diogelu anadlol

*
*Gwybodaeth**

5 cynlluniau, lluniadau a brasluniau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, safonau, rheoliadau a chanllawiau swyddogol sy'n ymwneud â gwaith sgaffaldiau

*

*Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol**

6 cyfrifoldebau gweithiwr o ran damweiniau posibl, peryglon iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, o dan lefel y tir, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud a storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

**

Cynnal a chadw**

7 gofal y gweithiwr am offer llaw, offer pŵer cludadwy, cyfarpar ategol a chyfarpar mynediad

*
*

Dulliau gweithio

8 cymhwyso gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel mewn perthynas â'r dull, y maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i:

8.1 cadarnhau'r ardal i osod y sgaffald cantilifer

8.2 cadarnhau bod sefydlogrwydd y sylfaen a'r strwythur y bydd y sgaffald yn cael ei osod a'i sicrhau arnynt wedi cael ei ystyried

8.3 cadarnhau'r deunyddiau a'r cydrannau (tiwbiau a ffitiadau, sgaffald systemau)

8.4 nodi'r gwahaniaethau rhwng cantilifer cwpl a cantilifer ffan

8.5 gosod strwythur y sgaffald allan a pharatoi ar ei gyfer

8.6 gosod a sicrhau'r sgaffald (nodwyddau, sbardunau a gwirio'r ffitiadau)

8.7 datgysylltu a symud strwythurau sgaffald cantilifer

8.8 cynnal archwiliad gweledol o gyfarpar diogelu rhag cwympo

8.9 gosod clymau a phrofi angorau

8.10 gweithio gyda pheiriannau, o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt

8.11 defnyddio offer llaw a chyfarpar ategol

8.12 gweithio ar uchder

8.13 defnyddio cyfarpar mynediad

9 gwaith tîm a chyfathrebu

10 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â gosod a datgysylltu sgaffaldiau cantilifer

*
*Problemau**

11 y rhai hynny sy'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

11.1 eich awdurdod eich hun i unioni sefyllfa

11.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

*
*Rhaglen**

12 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

13 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

*
*Diogelu gwaith**

14 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

*
*

Adnoddau

15 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol ac arbenigol o'r canlynol:

15.1 tiwbiau a ffitiadau

15.2 sgaffald systemau

15.3 deunyddiau cysylltiedig (propiau, rhaffau, angorau, clymau, byrddau, platiau, trawstiau, ysgolion, cydrannau perchnogol)

15.4 offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar

16 cadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n bodloni'r gofynion

17 dulliau o gyfrifo hyd ac arwynebedd sy'n gysylltiedig â'r dull a'r weithdrefn ar gyfer gosod a datgysylltu sgaffaldiau cantilifer

*
*Gweithdrefnau diogelwch**

18 safle, gweithle, cwmni a gweithiwr, cerbydau

*
*

COSVR249

Gosod a datgysylltu sgaffaldiau cantilifer

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	30 Tach 2020
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Tach 2025
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR249
Galwedigaethau perthnasol	Sgaffaldio
Cyfres/Set	Gweithrediadau Cyrraedd a Rigio (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Cantilifer; Sgaffald; Gosod; Sefydlogrwydd; Tiwbiau a ffitiadau; Propiau, Rhaffau; Platiau; Byrddau